

'Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl'

Keen, Elen

Canu Gwerin / Folk Song (Journal of the Welsh Folk-Song Society)

Cyhoeddwyd: 01/06/2018

Fersiwn wedi'i hadolygu gan gymheiriaid

[Cyswllt i'r cyhoeddiad / Link to publication](#)

Dyfyniad o'r fersiwn a gyhoeddwyd / Citation for published version (APA):
Keen, E. (2018). 'Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl': Golwg ar Aelwyd Angharad (J. Lloyd Williams) a'i chynnwys cerddorol. *Canu Gwerin / Folk Song (Journal of the Welsh Folk-Song Society)*, 2018(41), 58-84.

Hawliau Cyffredinol / General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

'Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl':

Golwg ar *Aelwyd Angharad* (J. Lloyd Williams) a'i chynnwys cerddorol¹

Cefndir

Mewn cyfarfod o Gyngor Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ym mis Medi 1897² penodwyd J. Lloyd Williams yn Ddarlithydd Cynorthwyol ac Arddangoswr Adran Botaneg y Coleg ac o ganlyniad dychwelodd i Ogledd Cymru wedi pedair blynedd anodd ond cynhyrchiol yn Llundain lle bu'n canolbwyntio ar ei astudiaethau botanegol. Er ei fod eisoes wedi ennill cryn barch ac edmygedd ym maes Botaneg, ceir yr argraff mai dychwelyd adref am resymau teuluol a wnaeth: roedd ei fab hynaf, Idwal, yn tynnu am ei deirblwydd oed ac Elizabeth, ei wraig, yn feichiog.³ Roedd Lloyd Williams cyn hynny wedi treulio deunaw mlynedd fel prifathro Ysgol Garndolbenmaen yn Eifionydd rhwng 1875 a 1893,⁴ cyfnod pan welwyd trawsnewidiad cerddorol mawr yn yr ardal a hynny yn sgîl ei ymdrechion diflino ef i ddarparu hyfforddiant a chyfleon cerddorol i blant ac oedolion y gymdogaeth.⁵ Ac yntau'n chwennych gyrfa yn y byd gwyddonol, trodd ei gefn ar fyd addysg gynradd a dilyn ôl traed ei frodyr.⁶ Treuliodd bedair blynedd yn Llundain. Dilynodd gwrs mewn Botaneg yn y Coleg Gwyddonol Brenhinol yn Kensington gan ennill cryn amlygrwydd yn dilyn ei astudiaeth arloesol o gelloedd *algae* brown; sicrhaodd swydd yno fel Arddangoswr Cynorthwyol yn y Coleg Gwyddonol, ac yn ddiweddarach penodwyd ef yn Arddangoswr Botanegol gyda Chymdeithas y Cyffurwyr yn Llundain. Yn ddi-os, ystyriwyd ef ymysg rhai o fotanegwyr mwyaf blaenllaw Ynysoedd Prydain.⁷

Yn ôl yr hyn a ysgrifennodd yn ei gyfrolau o atgofion⁸ a'r erthyglau hunangofiannol yn *Y Cerddor*,⁹ ymdrechodd J.Lloyd Williams i gau'r drws yn gyfan gwbl ar y byd cerdd pan symudodd o'r Garn i Lundain. Cyfaddefodd ei fod wedi 'ymdynggedu i geisio dirwesta oddi wrth bob canu, er mwyn gwneud cyfiawnder â'm tipyn gwyddoniaeth'.¹⁰ Yn ddi-os, ystyriai gerddoriaeth yn wendid ac yn demtasiwn iddo – er ei fod wrth ei fodd yn ymwneud â hi – a cheir yr argraff ei fod wedi brwydro'n galed yn ei herbyn am amryfal resymau. Er mai dilyn gyrfa broffesiynol yn y byd academiaidd gwyddonol a

wnaeth wedi hynny, ac er iddo droi ei gefn ar y byd cerddorol yn Llundain, buan y daeth galw am ddawn gerddorol ac arbenigedd y mab afradlon wedi iddo ddychwelyd i Ogledd Cymru.¹¹

LLUN 1: J. Lloyd Williams: c. 1905

Ffynhonnell: Llsg. LIGC (Papurau a Llsg. Cerddorol Dr. J. Lloyd Williams B5/1). *UCNW Bangor - Popular Lectures*, (Bangor, 1905)

Treuliai ddyddiau'r wythnos ym Mangor a dychwelyd ar ei feic i gartref ei wraig yng Nghricieth dros y penwythnos.¹² Roedd y teulu'n aelodau o Gapel Seion, Cricieth, a buan y tynnodd Lloyd Williams sylw at y ffaith nad oedd plant yr addoldy yn cael dysgu canu. Digon negyddol oedd ymateb gweinidog a chodwr canu'r capel i'r fath sylwadau gan honni bod yno 'leisiau gwael' a 'diffyg deunydd' ond darbwyllwyd Lloyd Williams gan rai o'r aelodau i ddarparu dosbarthiadau canu i'r plant ar nosweithiau Sadwrn, dosbarthiadau a ddaeth yn hynod boblogaidd.

Prin y medrai neb o'r plant nodyn o fiwisg ar y dechrau. Ond yr oeddynt yn hynod o ddeallus, ac fel y dywedodd un o'r rhieni, "wedi llwgu am ganu". Y canlyniad oedd eu bod yn llawn brwdfrydedd ac yn dysgu'n gyflym.¹³

Ar gais taer y plant i gael dysgu gwaith newydd aeth ati i geisio llunio opereta yn dwyn y teitl 'Hwyrnos Lawen' ar eu cyfer ar y cyd â'i gyfaill, Llew Tegid.¹⁴ Roedd J. Lloyd Williams eisoes wedi arwain a chynhyrchu cantawdau ac operetâu gyda phlant Garndolbenmaen yn ystod ei gyfnod fel prifathro, gweithiau parod megis *Joseph* gan Joseph Parry, addasiadau o weithiau cyfansoddwyr eraill megis *Brenhines y Blodau* gan George Frederick Root, yn ogystal â gweithiau gwreiddiol o'i waith ei hun megis y gantawd, 'Nos Calan Gaeaf'.¹⁵ Diffyg deunydd addas ar gyfer plant yn yr iaith Gymraeg oedd y rheswm pennaf pam yr aeth J. Lloyd Williams ati i gyfansoddi darnau newydd. Yn ei gyfrol *Atgofion Tri Chwarter Canrif* cyfeiriodd at y ffaith iddo ysgrifennu at y cerddor David Jenkins (1848–1915) i ofyn yn benodol am opereta Gymraeg a Chymreig ar gyfer plant Ysgol Garndolbenmaen:

Gofynnais ichwi am operata [*sic*] Gymraeg; a oes y mymryn lleiaf o Gymreigrwydd yn y gwaith hwn? Dyna eich librettist, Cymro fel chwithau – rhad arno – yn ysgrifennu ei dipyn stori yn Saesneg. Ac am y stori ei hun nid oes yr un ias o'r ysbryd Cymreig ynddi mwy nag y sydd yn y gerddoriaeth. Ac nid operata [*sic*] mo'r gwaith, oblegid y mae rhannau ohono'n anghyfaddas i'w hactio ar unrhyw lwyfan. Fy nghwyn wrthy ch, Syr, oedd ein bod yn gorfod perfformio gormod o weithiau Seisnig, a dyma chwithau'n ychwanegu un arall at y 'gormodedd'.¹⁶

Mae'n amlwg mai mewn ymateb i ddiffyg deunydd addas yn yr iaith Gymraeg yr aeth J. Lloyd Williams ati i gyfansoddi. Perfformiwyd opereta yn dwyn y teitl 'Hwyrnos Lawen' gan Gôr Plant Capel Seion, Cricieth, o dan arweiniad Lloyd Williams yn Neuadd y Plwyf, Cricieth ym mis Gorffennaf 1898 a bu'n 'llwyddiant aruthurol' yn ôl un o adroddiadau'r wasg.¹⁷ Er nad oes fersiwn o'r gwaith wedi goroesi, roedd 'Hwyrnos Lawen' wedi rhagflaenu *Aelwyd Angharad* a'r awgrym a geir yw fod J. Lloyd Williams wedi defnyddio'r 'Hwyrnos' fel arbrawf cyn mynd ati i gwblhau'r opereta gyflawn. Rhydd Lloyd Williams hanes cyfansoddi'r opereta a'r modd y bu ef a Llew Tegid yn cydweithio:

Eglurais iddo gynllun Aelwyd Angharad. Bob nos Lun, am wythnosau, awn ato a dweud pa fath o eiriau a ddymunwn eu cael yr wythnos honno. Nos Wener awn i'w cyrchu; ac yn ystod y siwrnai ar y beic ddydd Sadwrn meddyliwn innau am y miwsig, ysgrifennid ef ar y bwrdd du, a dysgai'r plant ef. Fel hyn awd ymlaen o wythnos i wythnos; ond oherwydd brwdfrydedd y plant cynyddai'r darnau mewn anhawster wrth fynd ymlaen! Dysgwyd y gwaith a rhoddwyd perfformiadau llwyddiannus ohono mewn amryw leoedd.¹⁸

Ym mis Ebrill 1899, perfformiwyd fersiwn cyflawn o'r opereta *Aelwyd Angharad* gan Gôr Plant Capel Seion dair noson yn olynol yng Ngricieth, Porthmadog ac yna ym Mhwllheli.¹⁹

LLUN 2: Poster o berfformiad Côr Plant Seion Cricieth, Neuadd Drefol Porthmadog, 1899. (Drwy ganiatâd Llyfrgell Prifysgol Bangor, X/MD533).

Prin yw'r manylion a geir yn y wasg am y perfformiadau hyn a phrin yw'r cyfeiriadau atynt yn llawysgrifau Lloyd Williams ond roedd y 'delightful new cantata' wedi profi'n llwyddiant ysgubol. 'The chief characters appeared in Welsh costume, and the performance was a decided success.'²⁰

Yn rhifyn 9 Mehefin 1899 o'r *North Wales Express* ceir adroddiad manwl ar berfformiad o *Aelwyd Angharad* gan blant Capel Seion Cricieth, yn Neuadd y Penrhyn, Bangor ar 30 Mai 1899. Nid yw'n wybyddus pwy oedd wrth wraidd y penderfyniad i drefnu perfformiad ym Mangor, ond gwelir bod elw'r noson yn mynd i goffrau llyfrgell Ysgol y Garth, Bangor, lle roedd Llew Tegid yn brifathro. J. Lloyd Williams oedd yn arwain y plant ac ef hefyd fu'n cyfeilio ar y piano. Cadarnhaol iawn oedd yr adroddiadau yn y wasg wedi'r perfformiad ym Mangor a'r gynulleidfa'n amlwg wedi cael gwledd:

I do not remember ever spending a pleasanter evening at a public entertainment than I did on Tuesday evening last week at the Penrhyn Hall Bangor . . . Just a few words as to the players . . . The first, as I have already said, were, in the main, children, school children from Criccieth. They were assisted by some older girls, who, of course, did their work very well, but not at all better than the children, and to say that is not to cast any slight on the elders, for the children were almost precociously intelligent and the manner in which they kept up their share of the conversations, the way in which they told their stories, and the style in which they sang was in the highest creditable to their teachers, and to themselves.²¹

Daeth diwedd ar gysylltiad J. Lloyd Williams â phlant Cricieth pan ymgartrefodd ef a'i deulu ym Mangor yn ystod 1901 a throdd ei sylw wedi hynny yn gyfan gwbl at gyfoethogi bywyd y ddinas a'i myfyrwyr.

Saesneg oedd iaith y Coleg a diwylliant Seisnig a fabwysiadwyd gan mwyaf yn holl weithgareddau'r sefydliad. Fodd bynnag, ym 1901, fel ymgais i ddatblygu'r ymwybyddiaeth Gymreig, cafwyd ton o genedligrwydd ymysg rhai o'r myfyrwyr a theimlad o anniddigrwydd ynghylch statws israddol yr iaith Gymraeg o fewn y Coleg. Fel ymgais i chwyldroi'r sefyllfa, penderfynwyd perfformio gwaith Cymreig yn nathliadau Gŵyl Ddewi'r Brifysgol. Gofynnwyd i J. Lloyd Williams fod yn gyfrifol am 'drefnu perfformiad o opereta Gymreig'²² fel rhan o ddatliadau 1901 ac ym mis Mawrth y flwyddyn honno, perfformiwyd *Aelwyd Angharad* gan gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Drama ac aelodau o'r Gymdeithas Gorawl a hynny o dan arweiniad a chyfeiliant J. Lloyd Williams. Mae'r ffaith fod yr opereta wedi ei hailberfformio oddeutu mis yn

ddiweddarach yn arwydd o lwyddiant yr arbrawf ac ymddengys fod y cynhyrchiad hwn fel chwa o awyr iach wedi blynyddoedd o berfformiadau clasurol, Seisnig aruchel.

LLUN 3: Cwmni Aelwyd Angharad, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, 1904

(Ffynhonnell: Drwy ganiatâd Llsg. Bangor, (Archifau a Chasgliadau Arbennig): 'Dramatic Societies and Miscellaneous Groups', OSA2)

Yn ystod Gwanwyn 1904 bu perfformiadau eraill o'r opereta *Aelwyd Angharad* gan fyfyrwyr y Coleg ym Mangor; fe'i perfformiwyd ddechrau mis Mawrth 1904 fel rhan o'r dathliadau Gŵyl Ddewi arferol,²³ ac fe'i perfformiwyd hi'n gyhoeddus am y tro cyntaf ym Mangor, Caernarfon a Chonwy,²⁴ a hynny er budd Cronfa Adeilad Newydd y Coleg, cronfa yr oedd Llew Tegid yn ysgrifennydd arni. Bu'r fenter hon hefyd yn llwyddiant ysgubol. Tyrrodd y cynulleidfaoedd i wrando arnynt a bu'r adroddiadau yn y wasg yn hynod ganmoliaethus:

.Yr oedd y miwsig yn ysgafn ac yn felodaidd dros ben, a'r perfformiad drwyddi draw yn ardderchog. Yn sicr ni chafwyd gwell perfformiad mewn opera erioed; a dylai Cymry y dyddiau presennol fod yn falch fod gwŷr talentog yn dwyn allan gantodau o'r fath. Dylid eu hysbysu trwy Gymru benbwygilydd, a theimlwn yn sicr pe gwneid hyn y ceffid llawer mwy tuag at gronfa y coleg newydd. . . Dywedir fod pobl Caernarfon wedi eu boddhau gymaint fel y soniant am gael perfformiad arall o'r gantawd yn fuan.²⁵

Cynnwys *Aelwyd Angharad*

Nodir yn rhagymadrodd yr opereta mai bwriad cyfansoddwr ac awdur *Aelwyd Angharad* oedd 'rhoddi cipdrem gryno ar hen arferion difyr a buddiol Cymru Fu, a'u dull cartrefol a syml o dreulio oriau hamdden hirnos y gaeaf.'²⁶ Darlun sydd yma drwy sgwrs a chân o'r hen arferiad Cymreig o gynnal noson lawen mewn cegin fferm ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. 'Chwareugan' oedd y term a ddefnyddiodd J. Lloyd Williams a Llew Tegid am y gwaith. Yn y cyfnod hwnnw, defnyddid y term 'chwareugan' i olygu 'opera' a hynny mewn cyferbyniad i'r 'draethgan' a oedd yn enw Cymraeg ar *oratorio*. Cafwyd cryn amrywiaeth yn y termau a ddefnyddiwyd yn y wasg wrth gyfeirio at *Aelwyd*

Angharad – termau megis 'cantawd', 'opereta', 'drama' a 'chomedi gerddorol' – a gwelwyd amrywiaeth yn y termau a ddefnyddiodd Lloyd Williams ei hun wrth gyfeirio at y gwaith. Yr hyn a geir yma yw cyfuniad o ddeialog a darnau cerddorol yn cynnwys unawdau, deuawdau a chytganau pedwar llais. Cyfosodwyd dwy ar bymtheg o interliwdiau cerddorol yn gymysg o waith gwreiddol gan J. Lloyd Williams a threfniannau o alawon telyn Cymreig.

Rhennir y gwaith yn dair golygfa o fewn dwy act ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i leoli yng nghegin fferm Llwyngwern lle cynhelir y noson lawen. Rhoddir cyfarwyddiadau penodol ynglŷn â'r union wisgoedd ar gyfer y cymeriadau a manylion clir parthed yr offer priodol a oedd i'w gosod ar y llwyfan megis 'lle tân llydan, a choed neu fawn ar lawr . . . croger crochan wrth gadwen uwch ben y tân . . . cadeiriau hen ffasiwn a stolion trithroed, bord gron . . . canwyllbreni, troell yn y gongl, a thelyn (os bydd un) ar lawr y gegin'.²⁷ Pwysleisir hefyd fod modd addasu'r gwaith i gyd-fynd â thafodiaith yr ardal lle'i perfformir er mwyn cyfleu 'darlun swynol a naturiol o noson lawen yng Nghymru hanner can 'mlynedd yn ôl'.²⁸

Modryb Angharad yw'r prif gymeriad a hi sy'n agor ei chartref ar fferm Llwyngwern i'w chyfeillion ac i drigolion yr ardal gynnal noson lawen. Egyr yr opereta gyda golygfa fer ar y stryd pan gyflwynir dwy ferch ifanc, Sioned a Mary; maent yn trafod *party* y noson flaenorol yng nghartref Mrs Lewelin, Brwynog Villa. Ceir yma elfennau moesol a beirniadaeth amlwg o'r Cymry a oedd mor barod i arddel arferion Seisnig wrth i'r merched, yn eu llediaith, glodfori'r hyn a elwir yn 'bethau crach-fonheddig a hanner Seisnig'.²⁹ O'r olygfa gyntaf hon gwelir elfennau gwladgarol amlwg yn y gwaith a phwyslais ar gael plant i ddysgu am draddodiadau a hanesion Cymreig. Fel hyn y lleisia Gaenor, y Gymraes ifanc, ei barn:

mae llawer o farddoniaeth dlysaf Tennyson wedi ei ganu ar y peth a elwch chwi yn "straeon gwirion y Mabinogion"; ac y mae yn helynt o beth os ydyw plant y Saeson yn cael gwybod am y pethau hyn yn well na ni ein hunain.³⁰

Maes o law, llwydda Gaenor i ddarbwylllo'r ddwy arall i fynychu noson lawen a gynhelid y noson honno ar fferm Llwyngwern er mwyn cael profi arlwy draddodiadol Gymreig ar noson Calan Gaeaf. Wedi i bawb gyrraedd y ffermdy, cenir y cytgan agoriadol ar y gainc 'Pant Corlan yr Ŵyn'.

Wel dyma Nos Glangaeaf Ion,
Henafol wyl am hwyl yw hon,
Ni bu eu bath ers blwyddyn gron
Y difyr gwmni difeth.
O swm brefiadau'r defaid mân,
Ymunwn heddyw'n ddiwahan,
Yn fechgyn llon a merched glân,
I roi'r Eryri deg ar dân,
A nwyd ein cerdd a nodau cân,
A'r eco ddaw o Gricieth.³¹

LLUN 4: Tudalen gyntaf 'Cydgan Agoriadol' o sgôr yn llaw JLLW

(Ffynhonnell: Llsg. LIGC Casgliad J. Lloyd Williams, AM1/1)

LLUN 5: Tudalen gyntaf 'Cydgan Agoriadol' y golygiad newydd a baratoir gan EWK.

Caiff Modryb Angharad ei chanmol a'i mawrygu gan y cwmni a ddaw i'w chartref: 'Cyflawnder pur o synnwyr sy' yng **nghorun** het Angharad',³² ac mae'n ymgorfforiad o'r Cymry pybyr a garai draddodiadau a hanesion eu mamwlad. Yn ôl Dafydd Glyn Jones³³ seiliwyd yr opereta ar gymeriad Angharad James,³⁴ gwraig a ystyrid fel rhagflaenydd i Arglwyddes Llanofar a'r Arglwyddes Charlotte Guest ar sail ei gallu i brydyddu, i ganu'r delyn a'i diddordeb mewn cynnal nosweithiau llawen yn ei chartref yn 'Y Parlwr', Cwm Penammen, Dolwyddelan. Er nad oes tystiolaeth uniongyrchol o gysylltiad o'r fath yn llawysgrifau J. Lloyd Williams, mae modd canfod tebygrwydd rhwng Modryb Angharad a'r brydyddes. Ymddengys fod gan Angharad James ferch o'r enw Gwen³⁵ felly hefyd Modryb Angharad, prif gymeriad yr opereta; roedd barddoni a chanu'r delyn yn hawlio cryn sylw yng nghartref y naill fel y llall;³⁶ edrychid ar y ddwy fel cymeriadau moesol ac uchel eu parch o fewn y gymdeithas³⁷ ac roedd achyddiaeth yn bwysig yng ngolwg y ddwy.³⁸ Mewn erthygl ar fywyd a gwaith Angharad James, dywed Nia Jenkins fod y brydyddes a'i theulu yn canu cerddi ac anterliwtiau o'i gwaith i gyfeiliant

alawon poblogaidd y cyfnod megis 'Y Fedle Fawr' a 'Lefi Land'³⁹ a defnyddio geiriau i'w canu ar alawon adnabyddus a oedd wrth law ar y pryd.

Gwladgarwch yn ddios yw thema greiddiol *Aelwyd Angharad*. Nid oes plot i'r opereta ond yr hyn a wneir yma yw tynnu sylw at hen arferion a thraddodiadau cefn gwlad Cymru. Y traddodiad cyntaf gaiff sylw yw'r ymryson canu ac mae tri chystadleuydd yn perfformio cân 'Y Gwenith Gwyn' cyn derbyn beirniadaeth rwysgfawr, eisteddfodol gan y beirniad, Pencerdd Prydain. Traddodiad arall a gyfeirir ato sydd efallai yn llai cyfarwydd heddiw yw'r arfer o ddysgu diarhebion ar gân gyda phedwar cymeriad yn cymryd arnynt geisio cofio'r amrywiol ddjarhebion. Ceisio profi rhagoriaeth dysgu diarhebion trwy ganu a wneir yma a hynny o'i gymharu â'r gemau Seisnig a elwid yn chwarae *proverbs* ac mae'r elfen hon o geisio mawrygu'r arferion Cymreig yn treiddio trwy'r gwaith fel pe bai'r cyfansoddwyr yn rhybuddio'r gynulleidfa rhag cael eu dylanwadu gan arferion ac adloniant estron.

Y cynganeddion a'r traddodiad barddol gaiff sylw ar ddechrau ail ran yr opereta lle mae'r cymeriad Hywel y Bardd yn ceisio rhoi gwers ar y gwahanol ffurfiau cynganeddol trwy gyfrwng deialog a gân. Er mor drymaidd yw natur y wers, llwyddir i gyflwyno cryn dipyn o gomedi i'r ddeialog trwy gyfrwng y cymeriad Llelo Llawchwith, sef yr un y cyfeirir ato fel 'y cymeriad digrifol'. Yng nghanol yr holl dermau barddonol technegol, mynna Llelo Llawchwith dynnu'n groes i bawb cyn cael ei daflu allan i'r oerni am amharu ar y wers. Fel y cyfeiriwyd mewn ambell adolygiad o'r opereta yn y wasg, defnyddiwyd y term 'comedi gerddorol', ac o ystyried huodledd a hiwmor naturiol Llew Tegid, nid yw'n syndod fod cyffyrddiadau o gomedi yn treiddio i'r gwaith: 'As to the libretto, everyone who knows Llew Tegid will assume that it, being his work, is bright, witty, and full of "go". And that it is . . . continually evoking laughter from [the] audience'⁴⁰

Yn dilyn y wers gerdd dafod, ceir dwy ymgais gan y cymeriad Dafydd ar ganu cerdd dant. Tri phennill o fawl i Eifionydd ar y gainc 'Llwyn Onn' a geir yn

gyntaf ac yna, yn sgil chwilfrydedd ac awydd ambell gymeriad i ddeall mwy am y gelfyddyd, cenir penillion pellach ar y gainc 'Pen-rhaw'.

Fel prifathro a chyn-brifathro mewn ysgolion cynradd, gwyddai J. Lloyd Williams a Llew Tegid o'r gorau sut i addysgu plant ac mae'r dulliau a ddefnyddiwyd yn *Aelwyd Angharad* yn arloesol ac yn brawf o weledigaeth y ddau i addysgu mewn dull newydd, atyniadol. Un arwr Cymreig a fawrygir yma yw Cynfrig Hir o ardal Edeyrnion a chyfeirir at ei arwriaeth a'i feiddgarwch yn achub y Tywysog Gruffudd ap Cynan o garchar y Normaniaid yng Nghaer yn 1092.⁴¹ Rhoddir ysbryd a gobaith o'r newydd i genedl y Cymry yn y ffaith fod eu harweinydd bellach yn rhydd o'i gaethiwed:

Deffro fy ngwlad, fe drodd y rhôd,
Arwr y gad sy'n awr yn dod,
Gruffydd ein pen a ddaeth yn rhydd
Ar Gymru wen, fe dorrodd gwawr y dydd.⁴²

Fel y dywedodd Hywel Teifi Edwards, 'codir y fflodiart ar ffrwd o wladgarwch milwriaethus'⁴³ yma a'r gynulleidfa'n cael eu hatgoffa drachefn o bwysigrwydd teyrngarwch i iaith a gwlad.

Tynnir sylw yma'n ogystal at hen arferion a chrefftau cefn gwlad y bedwaredd ganrif ar bymtheg. 'Y Gorchwylion' yw teitl y symudiad ac yn sgil cerydd gan Angharad am fod yn segur, mae aelodau'r cwmni'n mynd ati i ymdrin â gwahanol grefftau. Yn ôl y cyfarwyddiadau, nodir bod 'pawb i afael mewn rhyw orchwyl - gwau, gwnïo, pilio pabwyr, dirwyn edafedd, gwneud basged, ysgub, het wellt, llwy bren, ffon'⁴⁴ a gwneud hynny dan ganu. Un gwrthrych sy'n cael cryn sylw yma yw'r droell a hynny yn sgil y ffaith fod nyddu yn un o brif ddiwydiannau cefn gwlad Cymru yn y bedwaraedd ganrif ar bymtheg ac y byddai cynulleidfaoedd y dydd yn mwynhau gweld y droell ar y llwyfan: 'The spinning wheel was received with cheers when brought upon the stage, proving that the love of Welsh customs remains in the heart of the people.'⁴⁵

Mae sawl llun o wahanol gwmnïau a berfformiodd yr *Aelwyd* wedi sicrhau bod y droell yn cael lle haeddiannol.

LLUN 6: Canorion Glannau Tegid, 1911

(Ffynhonnell: Cerdyn post a dderbyniwyd trwy law Mr Eilir Rowlands, Hendre, Cefnddwysarn. Anfonwyd y cerdyn yn wreiddiol at Miss Ella Humphreys oddi wrth Mrs Kitty Rowlands, dyddiedig Ebrill, 1911. Ymddengys mai W. E. Jones oedd yr arweinydd.)

LLUN 7: Cwmni Angharad Blaenau Ffestiniog, c. 1915

(Ffynhonnell: Llun a dderbyniwyd trwy law Mrs Ann Owen, Cyffordd Llandudno.)

Cyfeirir yma hefyd at ofergoeliaeth yr hen Gymry, pwnc yr oedd Llew Tegid yn bur gyfarwydd ag ef.⁴⁶ Cyflwynir cryn dipyn o hiwmor wrth i un o'r cymeriadau esgus iddo weld ysbryd a chenir cân yn dwyn y teitl 'Ysbryd Castell Gwae'.

LLUN 8: 'Ysbryd Castell Gwae' - barrau agoriadol

(Ffynhonnell: *Aelwyd Angharad*, tt. 45–6)

Diddorol yw gweld nad oedd y gân hon, fel yn hanes ambell ddarn arall, yn y fersiwn wreiddiol o'r opereta a luniwyd ar gyfer plant Cricieth a hynny'n profi bod y gwaith wedi esblygu dros y blynyddoedd o fod yn waith ar gyfer yr ifanc yn unig i fod yn gyfanwaith aeddfetach ar gyfer oedolion. Mae'n amlwg fod tocio, diwygio a golygu wedi bod ar y gwaith a hynny er gwell yn ôl ambell feirniad: "The piece has been "pruned", and the process has greatly improved it."⁴⁷

Yn y fersiwn gwreiddiol ar gyfer plant cafwyd cyfeiriadau at chwedlau'r Tylwyth Teg ac yn ôl yr hyn a welir yn sgript un o'r fersiynau cynnar sydd ar gael yn Archifdy Prifysgol Bangor,⁴⁸ ymddengys fod criw o blant iau wedi dod ymlaen i ganu cân yn dwyn y teitl 'Y Gwaw Lawen'.

LLUN 9: 'Gwaw Lawen'

(Ffynhonnell: Archifau Prifysgol Bangor, (Llawysgrifau Llew Tegid BMSS/852), tt. 48–9)

Er na chafodd ei chynnwys yn fersiwn cyhoeddedig *Aelwyd Angharad*, fe gyhoeddwyd fersiwn tri llais SSA unigol o'r ganig fechan hon o waith J. Lloyd Williams yn ddiweddarach.⁴⁹

Gwaith ar gyfer plant o Gricieth oedd *Aelwyd Angharad* yn wreiddiol, ac o ganlyniad mae'r gwersi a gyflwynir yma yn cynnwys hanesion am arwyr sy'n gysylltiedig â'r ardal honno. Cenir cân am Syr Hywel y Fwyall (Hywel ap Gruffudd)⁵⁰ a oedd yn un o geidwaid Castell Cricieth yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac olrheinir achau Modryb Angharad iddo. Trwy gyfrwng deuawd a chytgan, mawrygir doniau'r arwr o Gastell Cricieth yn annog y dewrion i ymuno â'i fyddin:

Dewrion sy'n byddino
A'r wys ar ben pob bryn sy'n fflamio,
Udgorn croch y rhyfel,
O clywch ei dreiddiol nodau clir.
Meibion dewr Eryri
A lifant fel rhaiadrol genlli,
Udgorn croch y rhyfel,
Sy'n deffro dewrion Eifion dir.⁵¹

LLUN 10: Cytgan: 'Hywel y Fwyall'

Ffynhonnell: *Aelwyd Angharad*, tt. 20–2

Fel y cyfeiriwyd, mae'r gerddoriaeth a ddefnyddir yn *Aelwyd Angharad* yn gyfuniad o waith gwreiddiol J. Lloyd Williams a threfniannau o alawon telyn Cymreig. Soniwyd uchod am 'Y Gwenith Gwyn', 'Pant Corlan yr Wŷyn', 'Llwyn Onn' a 'Phen-rhaw'. Mae yma alawon llai cyfarwydd hefyd ac ambell un na wyddys eu tarddiad. Mewn llythyr a dderbyniodd J. Lloyd Williams oddi wrth ei frawd Hugh, o West Kensington Park yn Llundain ar 7 Ebrill 1912, dywedodd yn glir ei fod yn gyfarwydd â'r alawon 'Dewrion sy'n Byddino', 'Cynfrig Hir' a 'Clywn Sŵn y Gloch' ac roedd yn eithaf beirniadol o'i frawd am ddefnyddio'r alawon hyn:

I had heard “Dewrion sy’n Byddino” and “Cynfrig Hir” before you had composed *Aelwyd Angharad* and they did not seem to me to fit in well. I felt that you had put them in because you happened to have them on

your hands – an artistic sin ... I had heard “Clywch sŵn y gloch” at school and it remained a school song to me. It was too jolly to be in character with the rest of the piece.⁵²

LLUN 11: 'Cynfrig Hir'

Ffynhonnell: *Aelwyd Angharad*, tt. 25–7

LLUN 12: 'Clywch Sŵn y Gloch'

Ffynhonnell: *Aelwyd Angharad*, tt. 23–4

Cainc offerynnol arall sy'n cael ei defnyddio yma yw 'Croesaw Gwraig y Tŷ'. Cyhoeddwyd yr alaw hon yn wreiddiol yng nghyfrol Edward Jones 'Bardd y Brenin', *A Choice Collection of Fifty-One Welsh Airs*;⁵³ lluniodd Llew Tegid eiriau i'w canu arni a'i chynnwys yn y gwaith.

LLUN 13: 'Croesaw Gwraig y Tŷ'

Ffynhonnell: *Aelwyd Angharad*, tt. 53–4

Er gwaethaf beirniadaeth Hugh, roedd y ffaith fod ceinciau telyn ac alawon cyfarwydd fel hyn wedi eu cynnwys yn cyfrannu at lwyddiant a phoblogrwydd *Aelwyd Angharad*. Yn sicr, roedd J. Lloyd Williams wedi torri tir newydd yn hyn o beth a bu'n sail hynod bwysig i'w weithgarwch yn hyrwyddo alawon gwerin Cymreig yn ddiweddarach. Dylid pwysleisio nad oedd J. Lloyd Williams, yn y cyfnod pan gyfansoddodd *Aelwyd Angharad* yn wreiddiol, wedi deffro i fyd y caneuon gwerin Cymreig ac mai ei waith gyda chymdeithas Y Canorion yn y Coleg ym Mangor rai blynyddoedd yn ddiweddarach fu'r sbardun pennaf i hynny. Er nad oedd Hugh, ei frawd, yn llwyr o blaid y defnydd a wnaeth J. Lloyd Williams o'r alawon telyn, roedd yr ymateb yn y wasg yn gadarnhaol iawn a dyna un o'r rhesymau pam fod y gwaith wedi bod mor boblogaidd. Meddai un adolygydd:

He has woven the most beautiful melodies into his work, and with so much art that every theme in the music helps on and illustrates the dramatic movement of the play, and there is not a bar that does not immediately convey to the audience the sentiment intended to be represented in by the verse. The variety of the music is another of its excellence . . . we feel this form of Welsh Drama can thrill us even like the master pieces of the world.⁵⁴

J. Lloyd Williams fyddai'r cyntaf i gydnabod nad cyfansoddwr mohono a theg fyddai dweud nad yw *Aelwyd Angharad* yn gampwaith cerddorol o gymharu â gweithiau prif gyfansoddwyr eraill y cyfnod. Dysgu ei hun i ganu'r piano a wnaeth J. Lloyd Williams, ac ni chafodd unrhyw addysg gerddorol ffurfiol yn yr ysgol na'r coleg ond fe fynychodd ddosbarthiadau mewn elfennau harmoni gyda John Henry Roberts 'Pencerdd Gwynedd' (1848–1924) yn ystod ei gyfnod fel prifathro Ysgol Garndolbenmaen. Er mai cyfansoddwr anthemau, rhan-ganeuon ac emynau oedd J. H. Roberts, defnyddiodd alawon a thonau Cymreig yn rhai o'i gyfansoddiadau, fel y gantawd i gôr meibion ar eiriau Llew Tegid 'Brwydr Maes Camlan'.⁵⁵ Rhaid bod elfen o hynny wedi dylanwadu ar J. Lloyd Williams wrth iddo yntau, yn *Aelwyd Angharad*, blethu a threfnu alawon a oedd eisoes mewn bodolaeth. Digon confensiynol yw arddull gerddorol J. Lloyd Williams, a gellir honni mai bwrw prentisiaeth a wnaeth yn wyneb diffyg diddordeb yn y maes o du'r cerddorion proffesiynol. Dilyn traddodiad y cyfnod Clasurol (oes Haydn a Mozart) a wnaeth yma, ac mae ei harmonïau yn syml ac emynyddol. Digon elfennol yw'r defnydd o gyweiriau yn y gwaith a phrin yw'r trawsgyweiriadau. Ar brydiau, pan geir trawsgyweirio, nid yw hynny'n digwydd yn gwbl esmwyth, mae'r dilyniannau harmonig yn anarferol ar adegau a'r cwmpasrannau lleisiol weithiau'n anghyffredin, sydd eto'n brawf o ddiffyg profiad J. Lloyd Williams fel cyfansoddwr. Ceir ymgais i greu priodas hapus rhwng yr alaw a'r geiriau trwy gyfrwng gosodiad sill am dant, er bod 'Ysbryd Castell Gwae'⁵⁶ yn eithriad gan fod yma ddefnydd o *felisma* a hynny o bosibl er mwyn cyfleu arswyd. Mae mwyafrif yr adrannau corawl yn gordiol a braidd yn emynyddol eu harddull a'u gwead, gyda'r brif thema yn cael ei chanu gan y llais soprano. Eto i gyd ceir rhai eithriadau, megis yn 'Y Cydgan Agoriadol'⁵⁷ lle gwelir ymgais i greu gwead lledboliffonig a phob llais yn ei dro yn canu'r brif thema, sy'n dangos bod Lloyd Williams yn ymwybodol o werth elfennau gwrthbwyntiol. Nodwedd arall ar y gwaith yw fod nifer o'r caneuon yn diweddu'n esgynnol gyda'r bwriad, mae'n debyg o sicrhau diweddglo uchafbwyntiol a hynny'n digwydd gan amlaf yn rhan y cyfeiliant, fel math o goda offerynnol i gloi pob interliwd.

Mae'n amlwg fod y defnydd a wnaeth o alawon telyn ac alawon cyfarwydd wedi cyfrannu llawer at lwyddiant ac apêl yr opereta hon. Fodd bynnag, mae un gân, sef 'Y Droell',⁵⁸ yn sefyll ar ei phen ei hun o safbwynt arddull gan fod ôl dylanwad cyfansoddwyr *lieder* i'w glywed yma. Ceir ymgais yn y gân i greu rhyw lun ar gân gelf: mae'r harmoni yn fwy rhamantaidd, defnyddir y corws i ddynwared sain y droell wrth hymian, ac mae'r motifau bychain rhythmig yn rhan y piano yn dynwared rhythm y droell nyddu trwy gydol y darn.⁵⁹ Mae 'Y Droell' yn brawf o bosibiliadau'r dyfodol a phrawf pellach o'i hapêl oedd y ffaith iddi gael ei chanu fel cân unawdol ar sawl achlysur wedi hynny gan unigolion megis Dora Herbert Jones.

LLUN 14: 'Y Droell' (barrau agoriadol y cyfeiliant piano)

Ffynhonnell: Llsg. LIGC Casgliad J. Lloyd Williams, AM1/1

Yn ddi-os, esblygodd a datblygodd *Aelwyd Angharad* dros y blynyddoedd o safbwynt cynnwys, ffurf ac yn y defnydd o offerynnau. Piano, harmoniw m a ffidil oedd yn cyfeilio i berfformiadau plant Cricieth ond erbyn perfformiad myfyrwyr Coleg Bangor ym mis Mawrth 1904, defnyddiwyd seindorf linyndol. Anodd yw gwybod pa fath o 'seindorf' oedd hon ac ai J. Lloyd Williams fu'n gyfrifol am drefnu'r gwaith ar gyfer offerynnau linyndol. Nid yw'r fersiwn cynnar hwn o'r sgôr linyndol wedi goroesi ond yr hyn sydd ar gael yw addasiad J. Chas McLean o'r opereta ar gyfer cerddorfa fechan.⁶⁰ Lluniodd McLean fersiwn cerddorfaol o *Aelwyd Angharad* ym 1912 a hynny ar gyfer dwy ffidil, sielo, bas dwbl, fflwrtiau, clarinet, obo, drwm a thriogl. Perfformiwyd *Aelwyd Angharad* gan Gymdeithas Ddrama Porthmadog ar 28 Chwefror ac 1 Mawrth 1912 i gyfeiliant cerddorfa ynghyd â piano a thelyn a nodir ar y rhaglen fod y rhannau offeryndol wedi eu trefnu gan McLean.⁶¹ Hawdd fyddai credu bod Côr Angharad, Aberystwyth (a berfformiodd y

gwaith dan arweiniad J. Lloyd Williams) wedi defnyddio cerddorfa neu seindorf linyddol i gyfeilio iddynt ond mae lle i gredu mai David de Lloyd fu'n gyfrifol am y rhannau offerynnol y tro hwnnw.⁶² Ni theimlai Lloyd Williams yn ddigon hyderus i lunio trefniant o'r gwaith ar gyfer cerddorfa ac ymddengys nad oedd yn dymuno dod o dan lach unrhyw gerddor proffesiynol wrth geisio gwneud hynny, ond hawdd fyddai credu hefyd mai diffyg amser a'i rhwystrodd rhag [trefnu i'r offerynnau yn y diwedd](#).

Ar derfyn y drydedd act, cawn wybod bod y ddwy ferch ifanc, Sioned a Mary, yn gadarnhaol eu barn am y noson lawen a gynhaliwyd yn Llwyngwern. Pan ofynnwyd i Sioned pa un ai'r noson lawen yn Llwyngwern neu'r *party* yn Brwynog Villa oedd orau ganddi, dyma'i hateb: 'Heno o lawer. Mi faswn i yn 'enjoyo' bod yma tan y bore. Yr oedd y 'proverbs' yn 'beautiful' a'r canu penillion 'quite' yn 'charming'. Gawn ni dwad eto, auntie?'⁶³ Dywed Angharad fod croeso i'r ddwy ddychwelyd i'w chartref *wedi* iddynt 'ddysgu siarad Cymraeg.'⁶⁴ Yn yr un modd ag yr oedd J. Lloyd Williams a Llew Tegid yn frwd eu hargyhoeddiad dros eu hiaith a'u cenedl, trosglwyddir yr un teimladau yng ngeiriau ffraeth Angharad ac yn y cytgan sy'n dilyn:

'Rhwn nad yw bur i'w iaith a'i wlad,
Ei defion môd a'i breintiau,
A ffyddlon byth i dŷ ei dad,
Neu'r hwn a wâd ei achau,
Nid ydyw deilwng o'r mwynhad
O fyw yng ngwlad y bryniau.⁶⁵

Yr argyhoeddiad hwnnw a gydiodd ym meddyliau Cymry cefn gwlad ar droad yr ugeinfed ganrif. Yn sgil cyhoeddi fersiwn sol-ffa o'r opereta ym 1909 a'r ffaith fod J. Lloyd Williams yn llogi copïau hen nodiant i gymdeithasau,⁶⁶ perfformiwyd y gwaith gan ugeiniau o gwmnïau ledled Cymru hyd at ddiwedd y 1930au. O safbwynt diwylliannol, cymdeithasegol, hanes y ddrama amatur yng Nghymru, a hanes yr ymwybyddiaeth o werth alawon Cymreig, mae i *Aelwyd Angharad* le hynod bwysig. Er gwaethaf bwriad gwreiddiol y opereta i

fwydo plant lleol oedd yn 'llwgu am ganu' yn ardal Cricieth, ni ellir gwadu na fu dylanwad J. Lloyd Williams a'i weledigaeth yn bellgyrhaeddol.

¹ Rhan gyntaf erthygl sy'n seiliedig ar ddarlith a draddodwyd yng Nghynhadledd CAGC yn Aberystwyth fis Medi 2017 yw hon; bydd yr ail ran yn canolbwyntio ar waddol yr opereta.

² 'University College of North Wales: Meeting of Council', *North Wales Express*, 1 Hydref 1897, t. 7.

³ Ganwyd Idwal ar 11 Rhagfyr 1894 a Geraint ar 9 Rhagfyr 1897.

⁴ JLIW oedd prifathro cyntaf Ysgol Garndolbenmaen pan agorwyd hi ym mis Chwefror 1875, ac yntau'n 20 oed.

⁵ Am hanes ei brifathrawiaeth gw. J. Lloyd Williams, *Atgofion Tri Chwarter Canrif*, iv (Llundain, 1945), tt. 97–272.

⁶ Treuliodd dau o frodyr JLIW gyfnodau yn Llundain: bu William (1864–1945) yn astudio yn y Coleg Gwyddonol yn Kensington cyn ei benodiad yn ddarlithydd mewn Ffiseg a Mathemateg yng Ngholeg Technegol Abertawe. Bu Hugh (g. 1866) yn astudio yn y Coleg Celf yn Kensington ac yna yn artist proffesiynol yn Llundain.

⁷ Dewi Jones, *Naturiaethwr Mawr Môr a Mynydd: Bywyd a Gwaith J. Lloyd Williams* (Caernarfon, 2003).

⁸ J. Lloyd Williams, *Atgofion Tri Chwarter Canrif*, i–iv (Dinbych, 1941, 1942, 1944 a Llundain, 1945).

⁹ J. Lloyd Williams, 'Tri Chwarter Canrif o Atgofion Cerddorol', *Y Cerddor*, viii–ix, Ionawr 1938–Hydref 1939.

¹⁰ J. Lloyd Williams, 'Tri Chwarter Canrif o Atgofion Cerddorol', *Y Cerddor*, 8/1 (Ionawr 1938), t. 6.

¹¹ Roedd JLIW yn feirniad eisteddfodol, yn arweinydd cymanfaoedd canu amlwg, ac yn darlithio i gymdeithasau ar amrywiol bynciau cerddorol a gwyddonol. Ym 1899 daeth yn is-arweinydd Cymdeithas Gorawl y Coleg ym Mangor ac yn arweinydd côr staff y Brifysgol a gyfarfyddai yng nghartref Harry Reichel, y prifathro, a'i wraig. Ym mis Hydref 1904 penodwyd ef yn Gyfarwyddwr Cerdd rhan-amser y Coleg a daeth yn gyfrifol am yr holl weithgareddau cerddorol yno gan gynnwys rhoi gwersi cerddoriaeth, a hyfforddi Cymdeithas Gorawl y Coleg.

¹² Roedd Elizabeth, gwraig JLIW yn byw yn Nhŷ Mawr, Cricieth, gyda'i mam a'i chwaer tra oedd ef yn Llundain. Yma hefyd yr oedd cartref y teulu pan anwyd Idwal a Geraint.

¹³ J. Lloyd Williams, 'Nodion Golygyddol: Pam y mae cyn lleied o ddosbarthiadau solffa [*sic*] yn y wlad?', *Y Cerddor*, 4/2 (Chwefror 1934), tt. 27–8.

¹⁴ Lewis Davies Jones 'Llew Tegid' (1851–1928).

¹⁵ Llsg. LlGC (Papurau a Llsg. Cerddorol Dr. J. Lloyd Williams, AM4/1–2). Sgôr a geiriau 'Nos Calan Gaeaf'. Cyfansoddwyd y gwaith ar gyfer plant Ysgol Garndolbenmaen ym 1891.

¹⁶ J. Lloyd Williams, *Atgofion Tri Chwarter Canrif*, iv (Llundain, 1945), tt. 208–9.

-
- ¹⁷ 'Criccieth: Musical', *Carnarvon and Denbigh Herald and North and South Wales Independent*, 8 Gorffennaf 1898, t. 5.
- ¹⁸ J. Lloyd Williams, 'Nodion Golygyddol: Pam y mae cyn lleied o ddoisbarthiadau solffa [sic] yn y wlad?', *Y Cerddor*, 4/2 (Chwefror 1934), tt. 27–8.
- ¹⁹ 'Criccieth' a 'Portmadoc', *Carnarvon and Denbigh Herald and North and South Wales Independent*, 14 Ebrill 1899, t. 5.
- ²⁰ 'Criccieth', loc. cit.,
- ²¹ *North Wales Express*, 9 Mehefin, 1899, t. 6.
- ²² Lls. Bangor (Archifau Prifysgol Bangor). 'Minutes Book – UCNW St. David's Day Celebrations Committee': adroddiad y pwyllgor fu'n trafod dathliadau Gŵyl Ddewi 1901.
- ²³ Lls. Bangor (Archifau Prifysgol Bangor). 'Minutes Book – UCNW St. David's Day Celebrations Committee': adroddiad pwyllgor Ionawr 19, 1904 fu'n trafod dathliadau Gŵyl Ddewi y flwyddyn honno.
- ²⁴ *Carnarvon and Denbigh Herald and North and South Wales Independent*, 18 Mawrth 1904, t. 1.
- ²⁵ 'Aelwyd Angharad', *Herald Cymraeg*, 29 Mawrth 1904, t. 5.
- ²⁶ J. Lloyd Williams a Lewis D. Jones, *Aelwyd Angharad, neu Hwyrnos Lawen Llwyngwern, Chwareugan yn dangos dull ac arferion bywyd gwledig Cymru Fu* (Bangor, d.d.). Credir mai ym 1909 y cyhoeddwyd y fersiwn sol-ffa hwn.
- ²⁷ Ibid. tt. 3, 7.
- ²⁸ Ibid. t. 4.
- ²⁹ Ibid. t. 5.
- ³⁰ Ibid. t. 6.
- ³¹ Ibid. tt. 8–9.
- ³² Ibid. t.10–11.
- ³³ Sgwrs bersonol, 15 Gorffennaf 2015.
- ³⁴ Angharad James (1677–1749) Fe'i ganed ar fferm Gelli Ffrydau, Baladeulyn yn Nyffryn Nantlle; priododd yn 20 oed â William Prichard, Cwm Penamnen, Dolwyddelan. Dywedir ei bod yn hyddysg mewn Lladin, yn canu'r delyn, a daeth i gryn amlygrwydd fel bardd. Cedwir rhai o'i llawysgrifau gan gynnwys ei barddoniaeth yn LIGC.
- ³⁵ D. Charles Evans, *Adgofion am y Diweddar David Jones, Treborth; yn cynnwys crynhodeb o hanes ei fywyd* (Dolgellau, 1886), t. 13.
- ³⁶ Owen Thomas, *Cofiant Y Parchedig John Jones, Talsarn mewn cysylltiad a hanes Diwinyddiaeth a Phregethu Cymru* (Wrecsam, 1874), t. 25.
- ³⁷ Ibid.
- ³⁸ Ibid. t. 26. Yn *Aelwyd Angharad* olrheindir achau Modryb Angharad i Syr Hywel y Fwyall, gw. *Aelwyd Angharad*, op. cit. t. 19.
- ³⁹ Nia Mai Jenkins, 'A'i Gyrfa Megis Gwerful': Bywyd a Gwaith Angharad James', *Llên Cymru*, 24 (2001), tt. 79–112.
- ⁴⁰ 'Aelwyd Angharad at Bangor', *North Wales Express*, 9 Mehefin 1899, t. 6.
- ⁴¹ Iwan Jenkyn, 'Enwogion Anghofiedig Cymru: Rhif 1: Cynfrig Hir', *Cyfaill yr Aelwyd*, 9/2 (Chwefror 1889), tt. 7–8.
- ⁴² *Aelwyd Angharad*, tt. 26–7.

-
- ⁴³ Hywel Teifi Edwards, 'Aelwyd Angharad: Y Cyd-destun Hanesyddol', yn Sally Harper a Wyn Thomas (goln), *Cynheiliaid y Gân: Ysgrifau i Anrhydeddu Phyllis Kinney a Meredydd Evans* (Caerdydd, 2007), t. 68.
- ⁴⁴ *Aelwyd Angharad*. t. 37.
- ⁴⁵ Anh., 'Aelwyd Angharad: Welsh Musical Comedy at Carnarvon', *Caernarvon and Denbigh Herald*, 25 Mawrth 1904, t. 3.
- ⁴⁶ W. Penllyn Jones (gol.), *Bywgraffiad Llew Tegid gyda Detholiad o'i Weithiau* (Wrecsam, 1931). Bu Llew Tegid yn darlithio ar lèn gwerin ac ofergoelion. Cyfeirir yn *Y Dydd*, 19 Chwefror 1909, t. 4 at ddarlith ar 'Old Welsh Folklore' a draddododd gerbron Cymdeithas Ddadleuol Dolgellau; yn *Y Dydd*, 22 Hydref 1915, t. 6 at ddarlith 'Traddodiadau ac Ofergoelion Cymru Fu' a gyflwynodd i Gymdeithas Ddadleuol Capel Park Road, Abermaw; ac yn y *Cambrian Daily Leader*, 14 Chwefror 1919, t. 3 at 'The Traditions and Legends of Wales' a gyflwynodd gerbron Cymdeithas Cymmrodion Abertawe ym 1919.
- ⁴⁷ 'Local News: Bangor: The Welsh Drama', *North Wales Express*, 25 Mawrth 1904, t. 8.
- ⁴⁸ Llsg. Bangor (Llsg. Llew Tegid BMSS/852). Copi llawysgrif o 'Aelwyd Angharad'. Nid oes dyddiad arno ond credir mai hwn yw'r fersiwn cynharaf o'r gwaith sy'n bodoli ac o bosibl yn dyddio o 1904. Mae'r *libretto* yn llaw JLIW a geiriau'r caneuon mewn teipysgrif. Mae addasiadau i'w gweld o fewn y ddogfen, gyda sawl adran wedi'i chroesi allan ac adrannau eraill wedi'u hychwanegu'n ddiweddarach.
- ⁴⁹ J. Lloyd Williams, *Gwch Lawen: Canig i Blant* (W. H. Jones, Llanberis, d.d.).
- ⁵⁰ Hywel ap Gruffudd (Syr Hywel y Fwyall) (1331–81), mab Gruffudd ap Hywel, Bronyfoel yn Eifionydd. Bu'n Gwnstabl Castell Cricieth, ac fe'i hanfarwolwyd gan feirdd megis Guto'r Glyn, Gruffudd ap Maredudd a Iolo Goch.
- ⁵¹ *Aelwyd Angharad*, tt 20–2.
- ⁵² Llsg. LIGC (Papurau a Llsg. Cerddorol Dr. J. Lloyd Williams MP1/5).
- ⁵³ Edward Jones, *A Choice Collection of Fifty-One Welsh Airs adapted for the harp, piano-forte, harpsichord, violin or flute* (Caernarfon, 1863), t. 27; ail argraffiad gan Gwmni Cyhoeddi Adlais, Y Fenni, 2007.
- ⁵⁴ W. H. Jones, 'Celtic Plays', *The Magazine of the University College of North Wales*, xviii/2 (Mawrth 1909), t. 22.
- ⁵⁵ J. H. Roberts & Llew Tegid, *Brwydr Maes Camlan: Founded on Welsh Melodies* (Caernarfon, 1895).
- ⁵⁶ *Aelwyd Angharad*, tt. 45–8.
- ⁵⁷ *Ibid.* tt. 7–11.
- ⁵⁸ *Ibid.* tt. 41–4.
- ⁵⁹ 'Aelwyd Angharad at Bangor', *North Wales Express*, 9 Mehefin 1899, t. 6. Cyfeirir at y tebygrwydd sydd rhwng 'Cân y Droell' *Aelwyd Angharad* a cân yn yr opera *Faust* gan Gounod ('Il ne revient pas', Act 4). Dynwardodd Schubert hefyd sain y droell yng nghyfeiliant y gân 'Gretchen am Spinnrade' (Op. 2, D. 118).
- ⁶⁰ Llsg LIGC, 15479D. Sgôr yn llaw J. Chas McLean, dyddiedig Chwefror 1912.
- ⁶¹ Llyfrgell Prifysgol Bangor, X/MD533. Casgliad o bosteri a rhaglenni cyngerdd 'Aelwyd Angharad'. Y cyfarwyddwr cerdd oedd Mr E. Evans gyda Mr R. E. Jones yn cyfeilio ar y piano a Mr Ll. Wood yn cyfeilio ar y delyn. Roedd 7

ffidil yn rhan o'r gerddorfa, 1 fiola, 2 sielo, 1 bas dwbl, 1 obo, 2 fflwt a 2 offerynnwr taro.

⁶² Lls. LIGC (Papurau a Lls. Cerddorol Dr. J. Lloyd Williams AL2/2). Llythyr oddi wrth JLIW at Walford Davies, dyddiedig 1 Mai 1922, yn nodi diffyg awydd JLIW i ddangos ei sgôr piano o 'Aelwyd Angharad' i David de Lloyd – arwydd o'i wyleidd-dra a'i ddiffyg hyder fel cerddor.

⁶³ *Aelwyd Angharad*, t. 49.

⁶⁴ Ibid.

⁶⁵ Ibid. tt. 49–51.

⁶⁶ Lls. LIGC (Papurau a Lls. Cerddorol Dr. J. Lloyd Williams AM1.1). Nodir yn llaw JLIW 'Hired Copy No. 20' ar un o'r copïau sy'n y casgliad hwn ac mae'r gwahanol gyfeiriadau cartref sydd i JLIW yn brawf o ddefnydd y copïau dros flynyddoedd lawer.